

**Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 – 2030**  
**ARCHWILIAD CYHOEDDUS**  
**Datganiad Gwrandawriad gan Gyngor Sir y Fflint**

**Mater 12 Sesiwn y Gwrandawriad**

**Dydd Iau 13 Mai 2021**

**Cynigion i Ddatblygu Tai Newydd (HN1)**

Well Street, Bwcle  
Highmere Drive, Cei Connah  
Ffordd Llaneurgain, Y Flint  
Tir rhwng Ffordd Dinbych a Ffordd  
Gwernaffield, Yr Wyddgrug  
Ffordd Treffynnon / Green Lane, Ewlo  
Ash Lane, Penarlâg  
Cae Isa, New Brighton  
Ffordd Wreccsam, HCAC

**Dwysedd a Chymysgedd Datblygiadau (HN2)**

# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 - 2030) Archwiliad Cyhoeddus

## Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Mater 12: Cynigion Datblygu Tai Newydd (yn cynnwys dwysedd a chymysgedd)

Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir y Fflint (CSyFf) mewn ymateb i gwestiynau gwrandawriad yr Arolygwyr:

### **Mater Allweddol:**

**A ystyriwyd dewisiadau amgen perthnasol; a nodwyd y safleoedd tai ar sail proses gadarn a rhesymegol o ddewis safleoedd? A yw'r safleoedd yn gyflawnadwy o fewn cyfnod y cynllun, ac a fyddant yn gwneud cyfraniad priodol o ran yr angen am dai?**

### **Ymateb:**

#### **Methodoleg Dewis Safleoedd / Ystyried dewisiadau amgen**

1. Mae'r Cyngor wedi nodi ei ymagwedd at y fethodoleg a'r broses o ddewis safleoedd mewn ymateb i Gwestiwn 10 yn ymateb y Cyngor i Gwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygydd ([Flintshire LDP EiP Inspectors Prelim Questions and Responses W \(siryfflint.gov.uk\)](http://flintshire.gov.uk/inspector-prelim-questions-and-responses)). I grynhoi, mae'r Cyngor wedi:
  - asesu rhyw 734 o safleoedd ymgeisiol yn y Gofrestr [LDP-KPD-CS1 Cofrestr o Safleoedd Posibl \(flintshire.gov.uk\)](http://flintshire.gov.uk/ldp-kpd-cs1)
  - ymgynghori gyda a defnyddio methodoleg asesu safleoedd ymgeisiol [LDP-KPD-CS1.2 Safle Ymg - Methodoleg Asesu \(flintshire.gov.uk\)](http://flintshire.gov.uk/ldp-kpd-cs1.2) fel sail i asesu safleoedd
  - hidlo safleoedd ymgeisiol i safleoedd mawr a bach
  - cynnal ymgynghoriadau gyda budd-ddeiliad (mewnol ac allanol) ac asesiadau manwl o safleoedd
  - asesu safleoedd ymgeisiol yn erbyn y Strategaeth a Ffefrir – Papur Cefndir [LDP-KSD-PS4](http://flintshire.gov.uk/ldp-kpd-ps4)
  - hwyluso cyflwyno safleoedd amgen fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir [LDP-KSD-PS4 Papur Cefndir - Ystyriaeth o Safleoedd Ymgeisiol yn erbyn y Strategaeth a Ffefrir \(flintshire.gov.uk\)](http://flintshire.gov.uk/ldp-kpd-ps4)
  - asesu rhyw 97 safle amgen yn y Gofrestr [LDP-KPD-AS1 Safleoedd Amgen \(flintshire.gov.uk\)](http://flintshire.gov.uk/ldp-kpd-as1) gan ddefnyddio'r un fethodoleg
  - adnabod rhestr o ddyraniadau posibl yn seiliedig ar yr uchod, a chynnal ymgynghoriadau â budd-ddeiliaid allweddol
  - trafod rhestr o ddyraniadau posibl gydag Aelodau o'r Grŵp Strategaeth Cynllunio
  - ystyried safleoedd yn erbyn y strategaeth ofodol a dosraniad gofodol cychwynnol twf ym mholisi STR2 y Strategaeth a Ffefrir (dyraniadau yn Haenau 1, 2 a 3)
  - asesu dyraniadau a 'dewisiadau amgen rhesymol' fel rhan o'r arfarniad o gynaliadwyedd (atodiad E yr Asesiad Effaith Integredig) [LDP-KPD-IIA4.2 Deposit IIA Appendix E \(flintshire.gov.uk\)](http://flintshire.gov.uk/ldp-kpd-iaa4.2)

- Cyhoeddi asesiad crynodol o bob safle ymgeisiol a safle amgen yn Nogfen y CDLI sydd i'w harchwilio gan y cyhoedd Papur Cefndir 08 Safleoedd Ymgeisiol a Safleoedd Amgen ([LDP-EBD-BP8 Papur Cefndirol LDP08 - Safleoedd Ymgeisiol a Amgen \(flintshire.gov.uk\)](#))
  - Cyhoeddi dyraniadau terfynol yn Nogfen y CDLI sydd i'w harchwilio gan y cyhoedd.
2. Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â dull rhesymegol a synhwyrol wrth asesu'r safleoedd hynny a gyflwynwyd ar yr adegau priodol yn y broses o baratoi'r Cynllun. Mae'r asesiad manwl o safleoedd a'r gymhariaeth â'r Strategaeth a Ffefrir wedi arwain at set o ddyraniadau tai sy'n gydnaws ag angen y Cynllun am ddyraniadau newydd wedi'u gosod yn erbyn ffynonellau cyflenwi eraill, fel y nodwyd yn y Fantolen Tai ac a oedd yn cynnal y dosraniad twf i haenau aneddiadau a amlinellwyd yn wreiddiol yn y Strategaeth a Ffefrir.

### **Cyflawnadwyedd / Cyfraniad at yr Angen am Dai**

3. Mae'r Cyngor wedi nodi'r fantolen tai ac amrywiol elfennau cyflenwi sy'n ceisio bodloni gofynion tai'r cynllun ym Mhapur Cefndir 10 Cyflenwad Tir ar Gyfer Tai [LDP-EBD-BP10 Papur Cefndirol LDP10 - Cyflenwad Tir a Gyfer Tai \(flintshire.gov.uk\)](#) a'r diweddariad diweddar i'r Papur Cefndir [Page Not Found \(flintshire.gov.uk\)](#). Mae hyn yn cynnwys y safleoedd sydd wedi'u cwblhau hyd yn hyn, ymrwymadau, lwfansau hap-safleoedd bach a mawr, safleoedd strategol a dyraniadau anstrategol. Mae'r Cynllun, yn ei bum mlynedd gyntaf, yn darparu tai ar y raddfa ofynnol, ac nid oes 'diffyg' sydd angen ei lenwi na'i ychwanegu at y blynyddoedd sydd i ddod ar ôl ei fabwysiadu. Mae safleoedd digonol wedi'u dyrannu ym Mantolen Tai'r Cynllun er mwyn cyrraedd lwfans hyblygrwydd o tua 14%, sydd yn awr wedi cynyddu i 18% fel y gwelir yn [FCC002 - Cyflenwad Tir Tai \(flintshire.gov.uk\)](#) Mae safle strategol Porth y Gogledd yn dod yn ei flaen yn gyflym ac yn cyflawni ar y safle, ac mae gan nifer o wahanol adeiladwyr tai ddiddordeb ynddo. Mae Llywodraeth Cymru'n gofalu am gyflawni'r elfen dai yn safle Neuadd Warren drwy'r Is-adran Tir sydd newydd ei sefydlu, a thrwy Fargen Dwf Gogledd Cymru. Ystyrir bod yr holl safleoedd anstrategol ar gael, yn hyfyw ac yn gyflawnadwy, ac mae datblygwyr yn dangos diddordeb ym mhob un ohonynt. Bydd y dyraniadau'n cynorthwyo i sicrhau y bydd gofynion tai'r Cynllun (sef tua 6,950 o anheddau) yn cael eu bodloni.

### **Mater Allweddol: A yw'r polisiau ar gyfer y safleoedd tai yn glir a rhesymol?**

- a) A ddylanwadodd presenoldeb, neu ddiffyg presenoldeb, Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ar y broses o ddewis safleoedd tai?**

#### **Ymateb:**

#### **A yw'r polisiau ar gyfer y safleoedd tai yn glir a rhesymol?**

- a.1 Dylid darllen y Cynllun fel cyfanwaith, a bydd y polisiau strategol a'r polisiau sy'n seiliedig ar bynciau / meini prawf / meysydd dan y tair 'thema' yn berthnasol i'r dyraniadau tai. Byddant hefyd yn berthnasol i gynigion datblygu hap-safleoedd.

Mae polisi HN1 hefyd yn cynnwys canllawiau dylunio cryno ar gyfer pob safle, ac mae nifer o'r safleoedd a neilltuwyd yn cael eu hategu gan Ddatganiad Tir Cyffredin, sydd ar gael yn y llyfrgell Archwilio.

### **Tir Amaethyddol**

a.2 Mae safbwynt y Cynllun o ran Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas wedi'i nodi yn ymateb y Cyngor i Fater 2, Strategaeth Cynllun, Cwestiwn g). I grynhoi, gweithiodd y Cyngor yn agos gyda Llywodraeth Cymru (Polisi Defnydd Tir Amaethyddol a Phridd – Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth) er mwyn sefydlu'r golled a ragwelir yng nghyswllt tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ar safleoedd ymgeisiol (a safleoedd amgen yn ddiweddarach). O ran dyraniadau safleoedd posibl, gofynnwyd i gynigwyr safleoedd gynnal arolygon manwl o safleoedd er mwyn sefydlu a fyddai datblygu'r safleoedd yn golygu colli Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas.

a.3 Roedd y Cyngor yn ceisio colli cyn lleied â phosibl o Dir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas drwy gydol y broses o asesu safleoedd a nodi dyraniadau posibl, a chyflwynwyd ac eglurwyd hyn ym Mhapur Cefndir 09 Tir Amaethyddol. Pwysleisir bod diogelu tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn ystyriaeth gynllunio bwysig wrth nodi dyraniadau tai, ond nid dyna'r unig ystyriaeth gan ei bod hefyd yn angenrheidiol ystyried ystod eang o ystyriaethau cynllunio. Gan fod gan nifer o aneddiadau Haenau 1, 2 a 3 y Cynllun dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas o'u cwmpas, ac oherwydd y diffyg safleoedd tir llwyd addas sydd ar gael, nid yw'n annisgwylidwy y byddai'r CDLI yn gofyn am golli peth tir gorau a mwyaf amlbwrpas. Fodd bynnag, mae'r Cynllun wedi ceisio lleihau'r golled honno ac mae ymagwedd y Cyngor wedi'i 'chefnogi mewn egwyddor' gan Is-adran Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru.

**Mae gweddill yr ymateb hwn yn delio â phob un o'r dyraniadau a nodwyd yng nghwestiynau'r Arolygwyr.**

### **Polisi HN1.1 Well Street, Bwcle**

Cwestiwn a)

A ydyw'n glir pam mae'r safleoedd wedi'u dewis ar draul safleoedd ymgeisiol eraill a safleoedd amgen?

Ymateb y Cyngor

a.1 Mae'r dull arferol o ystyried dewisiadau amgen a'r broses o ddewis safleoedd wedi'u hamlinellu yn yr ymateb i'r cwestiwn agoriadol uchod.

a.2 Mae'r safle wedi leoli ar ymyl Bwcle, sy'n lleoliad cynaliadwy, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith i'r lle gael ei ddynodi'n Brif Ganolfan Gwasanaeth Haen 1 oherwydd yr ystod o wasanaethau a chyfleusterau sydd yno. Ystyrir bod y safle'n estyniad rhesymegol sydd wedi'i ddiffinio'n dda i'r anheddiad oherwydd presenoldeb tai ar ddwy ochr a Well Street ar y drydedd ochr.

- a.3 Yn y gorffennol, ystyriwyd y safle'n ddyraniad tai cynaliadwy gan Arolygydd y CDU, ond ni chafodd ei ddatblygu, er nad oes cyfyngiadau anarferol ar hynny. Yn ei ymateb i Gwestiwn 10 Cwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygydd ([FCC01](#)), cyfeiriodd y Cyngor at y ffaith fod y safle wedi newid perchennog yn ddiweddar, at gynnal Ymgynghoriad cyn Ymgeisio, a chais cynllunio ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Ers hynny mae cais cynllunio amlinellol (062458) wedi'i gyflwyno gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn ar gyfer datblygiad preswyl ac mae yn y camau olaf o gael ei ddilysu. Mae hyn yn dangos hyder y Cyngor wrth ailddyrranu'r safle yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd ei fod yn hyfyw ac yn gyflawnadwy.
- a.4 Llywodraeth Cymru oedd y perchnogion blaenorol, ac mae'r ffaith iddynt drosglwyddo'r safle i ofal Gymdeithas Tai Clwyd Alyn yn arwydd o'r amcan i ddefnyddio tir cyhoeddus i greu datblygiad tai i gynorthwyo gyda'r adferiad economaidd ar gyfer y farchnad dai a thai fforddiadwy. Mae Bwcle fel anheddiad wedi profi twf sylweddol o ran tai yn y degawd diwethaf a thrwy gyfnod y CDU, ac mae'r dull o sicrhau bod safle cynaliadwy o fewn y ffin anheddiad, lle mae disgwyl y bydd datblygiad wedi'i sefydlu oherwydd y dyraniad blaenorol, yn un cadarn a digonol i'r anheddiad hwn wneud cyfraniad (gydag ymrwymadau heb eu setlo) at gyflenwad y CDLL.
- a.5 Er gwaethaf cyflwyno safleoedd ymgeisiol eraill a safleoedd amgen ar gyfer Bwcle, gan fod lleoliad y safle yn un cynaliadwy a'i fod wedi'i ystyried o'r blaen fel rhan o Ymchwiliad Cyhoeddus y CDU, nid oes cyfyngiadau ar ddatblygu'r safle hwn. Yn lleol, mae disgwyl y bydd datblygiad tai'n cael ei godi ar y safle o ystyried y dyraniad blaenorol ac mai bychan oedd maint y gwrthwynebiad cyhoeddus i ddyrranu'r safle yn y CDLI. Oherwydd ei gynaliadwyedd amlwg, mae'r Cyngor yn bendant y dylid ffafrio datblygu'r safle sefydledig hwn yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw ddyraniadau dianghenraid yng nghyswllt tir glas.

#### Cwestiwn b)

A yw'r nifer o unedau a nodwyd yn realistig ac yn gyflawnadwy?

Ymateb y Cyngor

- b.1 Seiliwyd y nifer o unedau ar ddwysedd safle o 30 o anheddau i bob hectar, sy'n rhoi amcangyfrif o 159 o unedau ar gyfer y safle hwn. Mae Atodiad 1 yn amlinellu dwysedd datblygiadau a gyflawnwyd ar nifer o safleoedd tai, ac ystyrir bod y 'targed' o 30 o anheddau i bob hectar yn realistig ac yn gyflawnadwy ar y mwyafrif o'r dyraniadau. Ar safleoedd lle gwyrir oddi ar hyn, darperir sylwebaeth benodol lle mae hynny'n berthnasol isod.
- b.2 Mewn dogfen ymgynghori cyn gwneud cais ar gyfer y safle hwn, nodwyd ffigur o 150 o anheddau, sef 28 o anheddau i bob hectar. Mae'r cais cynllunio cyfredol ar gyfer hyd at 140 o anheddau. Mae'r asiant wedi dweud bod y nifer is o anheddau yn y cais yn adlewyrchu amrywiaeth o faterion, yn cynnwys adborth PAC, asesiadau manwl, cysylltiadau llwybrau, Systemau Draenio Cynaliadwy a manau agored. Hefyd, mae'r angen i gadw waliau a lefelau er mwyn cael

<p>mynediad boddhaol wedi llywio'r cynllun, sy'n bodloni safonau a chymysgedd GAD.</p>
<p>Cwestiwn c) Beth yw'r amrywiol gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safleoedd? Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, a materion eraill, ymhle yr amlinellwyd beth yw'r gofynion ar gyfer pob safle? A oes eglurder a sicrwydd digonol?</p>
<p>Ymateb y Cyngor</p> <p>c.1 Nid ystyrir bod unrhyw gyfyngiadau hollbwysig ar ddatblygu'r safle a neilltuwyd hwn, ac mae'r potensial i'w ddatblygu eisoes wedi'i gadarnhau drwy Ymchwiliad Cyhoeddus y CDU.</p> <p>c.2 Mae fframwaith polisiâu'r Cynllun yn amlinellu'r gofynion polisi allweddol ac mae polisi HN1.1 yn amlinellu crynodeb o'r canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r safle. Mae'r Cyngor wedi nodi yn Atodiad 2 Papur Cefndir 3 Cynllun Seilwaith <a href="#">LDP-EBD-BP3</a> nifer o ofynion seilwaith mewn perthynas â'r safle hwn. Nid ystyrir bod unrhyw un o'r gofynion hyn yn anarferol, nac yn rhywbeth na ddylai safle o'r math hwn ei ddarparu fel rheol. Ategir hyn gan Ddatganiad Tir Cyffredin Dŵr Cymru / Hafren Dyfrdwy (<a href="#">SOCG005</a>) a'r atodiad diweddarach <a href="#">SOCG005A</a> (sydd nawr yn cadarnhau y gall Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Bwcle ymdopi â'r dyraniad hwn) a'r Datganiad Sefyllfa Addysg <a href="#">SOCG009</a>.</p> <p>c.3 Fel y nodwyd uchod yn yr ymateb i Gwestiwn a), mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno ond heb ei gymeradwyo eto, a bydd hwn yn cynnwys ystod lawn o adroddiadau cefndirol a thechnegol.</p>
<p>Cwestiwn d) O ystyried cyfyngiadau, lle mae rhai, yn ogystal â'r angen i ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy a seilwaith, a yw'r safleoedd yn hyfyw?</p>
<p>Ymateb y Cyngor</p> <p>d.1 Mae'r safle wedi'i leoli yn ardal Is-Farchnad yr Wyddgrug a Bwcle lle mae polisi HN3 yn gofyn am 40% o dai fforddiadwy. Mae hyn ar sail canfyddiadau Astudiaeth Hyfywedd Gwasanaethau'r Prisiwr Dosbarth <a href="#">LDP-EBD-HP6.1</a> a <a href="#">LDP-EBD-HP6.2</a> Ceir esboniad pellach ym Mhapur Cefndir 7 Tai Fforddiadwy <a href="#">LDP-EBD-BP7</a></p> <p>d.2 Nid oes cyfyngiadau hollbwysig mewn perthynas â'r safle hwn a fyddai'n llesteirio'i gyflawni, a dangosir hyn drwy'r ffaith fod Cymdeithas Tai Clwyd Alyn wedi cyflwyno cais cynllunio am hyd at 140 o dai fforddiadwy a thai i'w rhoi ar y farchnad agored, gan gynnwys 40% o dai fforddiadwy..</p>
<p>Cwestiwn e) A yw'r mecanweithiau darparu ar gyfer pob safle wedi'u nodi'n glir? A yw'r amserlen ar gyfer pob safle wedi'i nodi'n glir?</p>
<p>Ymateb y Cyngor</p>

e.1 Mae'r Papur Cefndir diwygiedig [BP10A](#) yn nodi'r graddfeydd adeiladu disgwylidig ar gyfer y safle hwn, sef 53 o anheddau y flwyddyn am y 3 blynedd 2022/23, 2023/24, a 2024/25. Mae hyn yn seiliedig ar adborth gan y datblygwr y mae ganddynt strategaeth ddatblygu glir i adeiladu ar y safle hwn, yn unol â'u rhaglenni datblygu mewn perthynas â chyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, yn ogystal â dyhead Llywodraeth Cymru i gynyddu faint o dai a adeiladir yng Nghymru er mwyn cyfrannu at dwf ac adferiad economaidd. Mae'r ffaith fod Clwyd Alyn wedi cyflwyno cais amlinellol, yng nghyd-destun y ffaith fod y safle wedi'i neilltuo ar gyfer tai, a'i fod o fewn ffin anheddiad Bwcle yn y CDU mabwysiedig, yn symud pethau i'r cyfeiriad cywir. Os yw'r cais cynllunio'n foddhaol, ac os caiff ei gymeradwyo, mae Clwyd Alyn yn ystyried ei bod yn realistig ac yn gyflawnadwy cwblhau'r gwaith erbyn mis Ebrill 2023 gan fod ganddynt brofiad o symud cynlluniau yn eu blaen yn brydlon ac yn effeithiol mewn perthynas â defnyddio cyllid Tai Llywodraeth Cymru.

### **Polisi HN1.3 Rhodfa Highmere, Cei Connah**

Cwestiwn a)

A ydyw'n glir pam mae'r safleoedd wedi'u dewis ar draul safleoedd ymgeisiol eraill a safleoedd amgen?

Ymateb y Cyngor

a.1 Mae'r dull arferol o ystyried dewisiadau amgen a'r broses o ddewis safleoedd wedi'u nodi yn yr ymateb i'r cwestiwn agoriadol uchod.

a.2 Mae safle Rhodfa Highmere wedi'i leoli ar ymyl Prif Ganolfan Gwasanaeth Haen 1 ac mae'n estyniad rhesymegol sydd wedi'i ddiffinio'n dda i'r anheddiad, gan ei fod o fewn y ffin anheddiad ac wedi'i neilltuo ar gyfer tai yn y CDU mabwysiedig. Mae'r safle'n agos at ganolfan siopa Ffordd Llanarth a chyfleusterau a gwasanaethau eraill, ac y mae mewn lleoliad cynaliadwy.

a.3 Yn y gorffennol, ystyriwyd y safle'n ddyraniad tai cynaliadwy gan Arolygydd y CDU. Ni chafodd ei ddatblygu ar y pryd, ond nid oes unrhyw gyfyngiadau anarferol ar ddatblygu'r lle. Mae perchnogion y safle wedi darparu ymrwymiad o'r newydd bod y safle ar gael. Ers i'r Cyngor ymateb i sylwadau ynghylch y safle hwn, ac ers cyhoeddi Ymateb y Cyngor i Gwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygydd [FCC001](#), mae perchennog y safle wedi dod i gytundeb â'r datblygwr a ffefrir, Edwards Homes Ltd, fel y nodir yn y Datganiad Tir Cyffredin [SOCG001](#).

a.4 Er gwaethaf cyflwyno safleoedd ymgeisiol eraill a safleoedd amgen ar gyfer Cei Connah, gan fod lleoliad y safle yn un cynaliadwy a'i fod wedi'i ystyried o'r blaen fel rhan o Ymchwiliad Cyhoeddus y CDU, nid oes cyfyngiadau ar ddatblygu'r safle hwn. Yn lleol, mae disgwyl y bydd datblygiad tai'n cael ei godi ar y safle o ystyried y dyraniad blaenorol a'r diffyg gwrthwynebiad cyhoeddus i neilltuo'r safle yn y CDLI. Oherwydd ei gynaliadwyedd amlwg, mae'r Cyngor yn bendant y dylid ffafrio datblygu'r safle sefydledig hwn yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw ddyraniadau dianghenraid yng nghyswllt tir glas.

Cwestiwn b) A yw'r nifer o unedau a nodwyd yn realistig ac yn gyflawnadwy?
Ymateb y Cyngor b.1 Mae'r nifer o unedau (150) yn seiliedig ar ddwysedd safle o 30 uned i bob hectar, ac ystyrir bod hynny'n realistig ac yn gyflawnadwy, fel y nodwyd yn y <a href="#">Datganiad Tir Cyffredin</a> .
Cwestiwn c) Beth yw'r amrywiol gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safleoedd? Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, a materion eraill, ymhle yr amlinellwyd beth yw'r gofynion ar gyfer pob safle? A oes eglurder a sicrwydd digonol?
Ymateb y Cyngor c.1 Nid ystyrir bod unrhyw gyfyngiadau hollbwysig ar ddatblygu'r safle hwn, ac mae'r potensial i'w ddatblygu eisoes wedi'i gadarnhau drwy Ymchwiliad Cyhoeddus y CDU.  c.2 Mae fframwaith polisiâu'r Cynllun yn nodi'r gofynion polisi allweddol ac mae polisi HN1.3 yn nodi crynodeb o'r canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r safle. Cefnogwyd y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd gan Bapur Cefndir 3 Cynllun Seilwaith <a href="#">LDP-EBD-BP3</a> a nodai nifer o ofynion seilwaith mewn perthynas â'r safle. Nid ystyrir bod unrhyw un o'r gofynion hyn yn anarferol, nac yn rhywbeth na ddylai safle o'r math hwn ei ddarparu fel rheol. Ategir hyn gan <a href="#">SOCG001</a> , Datganiad Tir Cyffredin Dŵr Cymru / Hafren Dyfrdwy <a href="#">SOCG005</a> a'r Datganiad Sefyllfa Addysg <a href="#">SOCG009</a> .  c.3 Mae'r <a href="#">Datganiad Tir Cyffredin</a> wedi nodi un maes lle ceir anghytuno. Mae'r Cyngor yn ystyried bod y nifer o unedau fydd ar y safle yn ychwanegol at y nifer mawr o unedau sydd yno eisoes yn sylweddol o ystyried mai dim ond un ffordd, Ffordd Llanarth, sy'n gwasanaethu'r safle. Mae rhan ogledd-orllewinol y safle'n rhoi cyfle, drwy ddefnyddio tir y mae'r Cyngor yn berchen arno, i sicrhau cyswllt cerdded a beicio o'r safle i Rodfa Courbett er mwyn darparu cysylltiadau cludiant cynaliadwy i Ysgol Uwchradd Cei Connah a Choleg Glannau Dyfrdwy. Dylid dylunio'r cyswllt cerdded a beicio i fod yn fynedfa i'r safle mewn argyfwng hefyd. Nid yw perchennog y safle / y datblygwr yn cytuno â'r syniad hwn. Mae angen gwneud gwaith pellach o ran materion ecolegol, ond nid ystyrir bod hyn yn codi materion sylfaenol ac nid oes gwrthwynebiad o du Cyfoeth Naturiol Cymru nac Ecolegydd y Cyngor ac mae'r <a href="#">Datganiad Tir Cyffredin</a> yn cynnwys ymrwymiad gan y datblygwr i gomisiynu'r gwaith.
Cwestiwn d) O ystyried cyfyngiadau, lle mae rhai, yn ogystal â'r angen i ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy a seilwaith, a yw'r safleoedd yn hyfyw?
Ymateb y Cyngor d.1 Mae'r safle wedi'i leoli yn ardal Is-Farchnad Cei Connah lle mae polisi HN3 yn gofyn am 35% o dai fforddiadwy, sef 53 uned. Mae hyn ar sail canfyddiadau



Astudiaeth Hyfywedd Gwasanaethau'r Prisiwr Dosbarth [LDP-EBD-HP6.1](#) a [LDP-EBD-HP6.2](#) Ceir esboniad pellach ym Mhapur Cefndir 7 Tai Fforddiadwy [LDP-EBD-BP7](#) Mae hyn yn gyfystyr â 53 o unedau fforddiadwy yn seiliedig ar adeiladu 150 o unedau ar y safle. Mae'r lefel o dai fforddiadwy yn fater y cytunwyd arno yn y Datganiad Tir Cyffredin ([SOCG001](#)). Nid ystyrir bod y safle'n codi unrhyw faterion hyfywedd.

Cwestiwn e)

A yw'r mecanweithiau darparu ar gyfer pob safle wedi'u nodi'n glir? A yw'r amserlen ar gyfer pob safle wedi'i nodi'n glir?

Ymateb y Cyngor

e.1 Mae'r Datganiad Tir Cyffredin [SOCG001](#) wedi egluro sut y mae'r tirlfeddiannwr wedi dod i gytundeb yn ddiweddar gydag Edwards Homes Ltd, y datblygwr a ffefrir ar gyfer y safle. Mae gan y safle gyd-destun cyfredol o ran datblygu gan ei fod wedi'i neilltuo ar gyfer tai yn y CDU mabwysiedig a'i fod o fewn ffin anheddiad Cei Connah. Mae'r taflwybr ar gyfer y safle'n dangos y bydd yr unedau cyntaf wedi'u cwblhau erbyn mis Ebrill 2023, ac ar raddfa o 30 o anheddau i bob hectar dros gyfnod o 5 mlynedd wedi hynny, ac ystyrir bod hynny'n realistig ac yn gyflawnadwy.

e.2 Mae Edwards Homes wedi cwblhau nifer o gynlluniau yn y Sir, ac mae rhai o'r cynlluniau mwyaf wedi'u rhestru isod:

- Yr hen Allied Bakery, Saltney – 74 uned gyda chaniatâd cynllunio a roddwyd ar 29/09/17. Yn ystod y 12 mis hyd at fis Ebrill 2018, codwyd 3 uned, ac yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2019, codwyd 35 uned, a chodwyd y 36 uned oedd yn weddill yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2020.
- Tir ar 142 Stryd Fawr, Saltney – 54 uned gyda chaniatâd yn cael ei roi ar 27/08/14. Yn ystod y 12 mis hyd at fis Ebrill 2015, codwyd 11 uned, gyda mwyafrif yr unedau (39) yn cael eu codi yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2016, a chodwyd y 4 uned oedd yn weddill erbyn mis Ebrill 2017.
- Wood Lane, Ewlo – 23 uned gyda'r caniatâd yn cael ei roi ar 11/09/18 a'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2020.
- Broad Oak Holding, Cei Connah – Mae'r safle hwn ar gyfer 32 uned wedi'i neilltuo yn y CDLI (HN1.2) a derbyniodd ganiatâd cynllunio ar apêl ar 24/09/19, ac roedd pob uned wrthi'n cael eu hadeiladu erbyn mis Ebrill 2020.

e.3 Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod o rai o ddatblygiadau Edwards Homes Ltd o ran amser a chyfraddau cwblhau, mae'r taflwybr o 30 uned y flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd, gyda'r rhai cyntaf yn cael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2023, yn realistig.

#### **Polisi HN1.4 Ffordd Llaneurgain, Y Fflint**

Cwestiwn a)

A ydyw'n glir pam mae'r safleoedd wedi'u dewis ar draul safleoedd ymgeisiol eraill a safleoedd amgen?

Ymateb y Cyngor

- a.1 Mae'r dull arferol o ystyried dewisiadau amgen a'r broses o ddewis safleoedd wedi'u nodi yn yr ymateb i'r cwestiwn agoriadol uchod.
- a.2 Mae safle Ffordd Llaneurgain wedi'i leoli ar ymyl Prif Ganolfan Gwasanaeth Haen 1 ac mae'n estyniad rhesymegol sydd wedi'i ddiffinio'n dda yn ffisegol i'r anheddiad. Mae'n ffinio â thai sy'n bodoli eisoes i'r gogledd, â thai sy'n bodoli eisoes a Ffordd Helygain i'r gorllewin, ac â'r A5119 a datblygiad masnachol yn rhannol i'r dwyrain. Mae'r safle ar briffordd i mewn i'r Fflint, gyda gwasanaethau bws cyson, mae'n agos at ysgol, canolfan siopa a chyfleusterau a gwasanaethau eraill, ac y mae mewn lleoliad cynaliadwy.
- a.3 Mae'r safle wedi'i ystyried yn y gorffennol gan Arolygydd y CDU, ac er nad argymhellwyd ei neilltuo yn y CDU, argymhellwyd ei eithrio o'r rhwystr glas. Rhoddodd hyn gyd-destun clir i'r safle gael ei ystyried fel rhan o'r CDLI. Y mae diddordeb gweithredol gan ddatblygwyr yn rhan ddwyreiniol, lai y safle (Edwards Homes) a rhan orllewinol, fwy y safle (Anwyl Land), fel y mae'r ceisiadau cynllunio'n dangos. Ers i'r Cyngor ymateb i sylwadau ynglŷn â'r safle, ac ers cyhoeddi ymateb y Cyngor i Gwestiynau Rhagarweiniol yr Arolygydd [FCC001](#), mae'r Cyngor wedi cael gwybod nad yw Anwyl Land wedi adnewyddu eu hopsiwn ar gyfer rhan orllewinol y safle a bod y cais cynllunio wedi'i dynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae perchennog y safle wedi dweud bod trafodaethau'n digwydd gyda nifer o ddatblygwyr, fel yr eglurwyd yn y Datganiad Sefyllfa SOCG010, ac nid ystyrir bod hyn yn effeithio ar argaeledd, hyfywedd na chyflawnadwyedd y safle. Roedd y cais blaenorol wedi'i wneud gan Anwyl Land, a fyddai wedi trosglwyddo'r safle i adeiladwr tai, ond ar hyn o bryd mae trafodaethau'n digwydd yn uniongyrchol gydag adeiladwr tai.
- a.4 Er gwaethaf cyflwyno safleoedd ymgeisiol eraill a safleoedd amgen ar gyfer y Fflint, gan fod lleoliad y safle yn un cynaliadwy a'i fod wedi'i ystyried o'r blaen fel rhan o Ymchwiliad Cyhoeddus y CDU, nid oes cyfyngiadau ar ddatblygu'r safle hwn. Yn lleol, mae disgwyl y bydd datblygiad tai'n cael ei godi ar y safle o ystyried y dyraniad blaenorol ac mai bychan oedd maint y gwrthwynebiad cyhoeddus i neilltuo'r safle yn y CDLI. Oherwydd ei gynaliadwyedd, mae'r Cyngor yn bendant y dylid ffafrio datblygu'r safle sefydledig hwn yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw ddyraniadau dianghenraid yng nghyswllt tir glas.

Cwestiwn b)

A yw'r nifer o unedau a nodwyd yn realistig ac yn gyflawnadwy?

Ymateb y Cyngor

- b.1 Mae'r nifer o unedau (170) yn seiliedig ar amcangyfrif ceidwadol ar gyfer y safle o ystyried topograffi'r safle sy'n goleddfu o'r dwyrain i'r gorllewin. Ar ran ddwyreiniol, lai y safle, mae Edwards Homes wedi cyflwyno cais cynllunio llawn ([061919](#)) i godi 18 annedd (sy'n destun apêl ar hyn o bryd), ac ar ochr orllewinol, fwy y safle, mae Anwyl Land wedi cyflwyno cais cynllunio amlinellol ([058314](#)) i godi 145 o anheddau, sydd bellach wedi'i dynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae'r arwyddion cychwynnol o drafodaethau rhwng yr asiant / tiffeddiannwr ac

adeiladwyr tai posibl ar gyfer y rhan fwy ei maint o'r dyraniad yn awgrymu ei bod yn debygol y gallai'r safle gynnwys rhagor o unedau. Mae potensial y gellid ystyried hyn yn hyblygrwydd ychwanegol o ran cyflenwad tai'r Cynllun.

Cwestiwn c)

Beth yw'r amrywiol gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safleoedd? Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, a materion eraill, ymhle yr amlinellwyd beth yw'r gofynion ar gyfer pob safle? A oes eglurder a sicrwydd digonol?

Ymateb y Cyngor

c.1 Nid ystyrir bod unrhyw gyfyngiadau hollbwysig ar ddatblygu'r safle hwn.

c.2 Mae fframwaith polisiau'r Cynllun yn nodi'r gofynion polisi allweddol ac mae polisi HN1.4 yn nodi crynodeb o'r canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r safle. Cefnogwyd y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd gan Bapur Cefndir 3 Cynllun Seilwaith ([LDP-EBD-BP3](#)) a nodai nifer o ofynion seilwaith mewn perthynas â'r safle. Nid ystyrir bod unrhyw un o'r gofynion hyn yn anarferol, nac yn rhywbeth na ddylai safle o'r math hwn ei ddarparu fel rheol. Ategir hyn gan Ddatganiad Sefyllfa ar gyfer y safle (SOCG010), Datganiad Tir Cyffredin Dŵr Cymru / Hafren Dyfrdwy ([SOCG005](#)) a'r Datganiad Sefyllfa Addysg [SOCG005](#).

c.3 Mae'r safle yn amlwg dan ddwy berchnogaeth, fel sy'n cael ei adlewyrchu gan y ddau gais cynllunio. Mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau ymagwedd gydlynus at ddatblygu'r safle lle byddai gan y ddau safle un fynedfa i gerbydau i'r A5119 Ffordd Llaneanain gan alluogi ymagwedd fwy cynaliadwy i gynllun a dyluniad y dyraniad, gan ystyried yr egwyddorion creu lle ym Mholisi Cynllunio Cymru. Gwrthodwyd cais cynllunio Edwards Homes [061919](#) ar gyfer rhan ddwyreiniol, lai y safle ar 15/01/21 oherwydd diffyg ymagwedd gydlynus at ddatblygu'r safle yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys mynediad i gerbydau, lliniaru ecolegol a diffyg tai fforddiadwy, ac mae apêl wedi'i chyflwyno erbyn hyn. Mae'r cais cynllunio [058314](#) wedi'i dynnu'n ôl tra bydd trafodaethau'n digwydd rhwng y tiffeddiannwr a'r datblygwyr i adnabod datblygwr a ffeirir i ddatblygu'r dafle, fel y nodir yn y Datganiad Sefyllfa (SOCG00X). Y mae lle, gyda datblygwr newydd, i sicrhau dull mwy cydlynus o ddatblygu'r dyraniad hwn. Nid ystyrir bod y newid diweddar mewn amgylchiadau'n debygol o effeithio ar gyfraddau cyflawni ar y safle, fel y nodwyd ym Mhapur Cefndir 10A [FCC02](#). Y rheswm am hyn yw oherwydd bod y taflwybr yn wastad wedi disgwyl i ran fechan y safle gael ei chwblhau cyn rhan fawr y safle, a hyd yn oed gyda'r newid yn yr amgylchiadau, mae hyn yn dal yn wir.

Cwestiwn d)

O ystyried cyfyngiadau, lle mae rhai, yn ogystal â'r angen i ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy a seilwaith, a yw'r safleoedd yn hyfyw?

Ymateb y Cyngor

d.1 Mae Papur Cefndir 07 Tai Fforddiadwy ([LDP-EBD-BP7](#)) yn nodi y bydd y safle, yn unol â pholisi HN3, yn darparu 15% o dai fforddiadwy, yn unol â'r Astudiaeth Hyfywedd ([LDP-EBD-HP6.1](#)). Mae hyn yn gyfystyr â 26 o unedau fforddiadwy yn

seiliedig ar adeiladu 170 o unedau ar y safle. Nid ystyrir bod y safle'n codi unrhyw faterion hyfywedd.

Cwestiwn e)

A yw'r mecanweithiau darparu ar gyfer pob safle wedi'u nodi'n glir? A yw'r amserlen ar gyfer pob safle wedi'i nodi'n glir?

Ymateb y Cyngor

e.1 Mae taflywbr y safle ym Mhapur Cefndir 10A ([FCC002](#)) yn dangos y bydd yr 20 uned gyntaf wedi'u cwblhau yn 2022/23, ac yna y bydd 40 annedd yn cael eu cwblhau bob blwyddyn dros y tair blynedd wedyn, ac y bydd y 30 annedd sy'n weddill yn cael eu cwblhau yn 2026/27. Ystyrir bod hyn yn realistig ac yn gyflawnadwy.

e.2 Mae'r ymatebion uchod ar HN1.3 Rhodfa Highmere, Cei Connah wedi nodi bod Edwards Homes wedi cwblhau nifer o ddatblygiadau yn y Sir a'u bod yn gallu dechrau'n fuan ar y safle a sicrhau y bydd unedau'n cael eu cwblhau'n gynnar. Mewn ymateb i gwestiwn c) mae'r Cyngor wedi crybwyll y gallai Edward Homes gwblhau rhai unedau'n gynnar yn rhan leiaf y safle, ac na ddylai'r newid mewn amgylchiadau yn rhan fwyaf y safle arafu'r broses yn y dyraniad yn ei gyfanrwydd, os yw dan reolaeth adeiladwr tai.

## **Polisi HN1.6 Tir rhwng Ffordd Dinbych a Ffordd Gwernaffield, Yr Wyddgrug**

Cwestiwn a)

A ydyw'n glir pam mae'r safleoedd wedi'u dewis ar draul safleoedd ymgeisiol eraill a safleoedd amgen?

Ymateb y Cyngor

a.1 Mae'r dull arferol o ystyried dewisiadau amgen a'r broses o ddewis safleoedd wedi'u nodi yn yr ymateb i'r cwestiwn agoriadol uchod.

a.2 Mae'r safle wedi'i leoli ar ymyl Prif Ganolfan Gwasanaeth Haen 1 ac mae'n estyniad rhesymegol sydd wedi'i ddiffinio'n dda i'r anheddiad. Mae'n ffinio â Ffordd Gwernaffield a datblygiad tai sy'n bodoli eisoes i'r de, yn ffinio â datblygiad preswyl sy'n bodoli eisoes i'r dwyrain, ac yn ffinio â Ffordd Dinbych i'r gogledd, ac yn ffinio'n rhannol a Factory Pool Lane i'r gorllewin. Mae'r safle'n agos at siop a chanolfan iechyd ac ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau eraill yn yr Wyddgrug, ac y mae mewn lleoliad cynaliadwy.

a.3 Er gwaethaf y ffaith fod safleoedd ymgeisiol a safleoedd eraill wedi'u cyflwyno ar gyfer yr Wyddgrug, ystyrir bod lleoliad cynaliadwy'r safle, y diffyg cyfyngiadau, a datblygwr parod, yn ei wneud yn ddyraniad tai rhesymegol a synhwyrol. Yn wahanol i safleoedd eraill yn yr Wyddgrug, mae'n osgoi'r angen i erydu'r rhwystr glas. Dyma'r unig gyfeiriad twf rhesymegol yn yr Wyddgrug oherwydd cyfyngiadau megis perygl llifogydd a'r rhwystr glas, ac mae hyn wedi'i gydnabod

yng Nghynllun Tre'r Wyddgrug a gynhyrchwyd gan y Cyngor Tref. Oherwydd ei gynaliadwyedd, mae'r Cyngor yn bendant y dylid ffafrio datblygu'r safle hwn yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw ddyraniadau dianghenraid yng nghyswllt tir glas.

a.4 Mae'r safle hefyd yn destun cais cynllunio (061994) gan Anwyl i godi 238 annedd, sy'n dangos bod y lle ar gael, yn hyfyw ac yn gyflawnadwy.

Cwestiwn b)

A yw'r nifer o unedau a nodwyd yn realistig ac yn gyflawnadwy?

Ymateb y Cyngor

b.1 Mae'r nifer o unedau (246) yn seiliedig ar ddwysedd safle o 30 uned i bob hectar ar gyfer y prif ddarn o dir rhwng Factory Pool Lane, Ffordd Gwernaffield ac ymyl y datblygiad tai sy'n bodoli eisoes, ac ystyrir ei fod yn realistig ac yn gyflawnadwy. Mae'r cais cynllunio a gyflwynwyd ([061994](#)) yn darparu ar gyfer 238 annedd.

Cwestiwn c)

Beth yw'r amrywiol gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safleoedd? Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, a materion eraill, ymhle yr amlinellwyd beth yw'r gofynion ar gyfer pob safle? A oes eglurder a sicrwydd digonol?

Ymateb y Cyngor

c.1 Nid ystyrir bod unrhyw gyfyngiadau hollbwysig ar ddatblygu'r safle hwn. Mae set gynhwysfawr o adroddiadau cefndirol a thechnegol yn cyd-fynd â'r cais cynllunio.

c.2 Mae fframwaith polisiâu'r Cynllun yn nodi'r gofynion polisi allweddol ac mae polisi HN1.6 yn nodi crynodeb o'r canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r safle. Cefnogwyd y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd gan Bapur Cefndir 3 Cynllun Seilwaith [LDP-EBD-BP3](#) a nodai nifer o ofynion seilwaith mewn perthynas â'r safle. Nid ystyrir bod dim un o'r gofynion hyn yn anarferol, nac yn rhywbeth na ddylai safle o'r math hwn ei ddarparu fel rheol. Ategir hyn gan Ddatganiad Tir Cyffredin Dŵr Cymru / Hafren Dyfrdwy [SOCG005](#) a'r Datganiad Sefyllfa Addysg [SOCG005](#).

Cwestiwn d)

O ystyried cyfyngiadau, lle mae rhai, yn ogystal â'r angen i ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy a seilwaith, a yw'r safleoedd yn hyfyw?

Ymateb y Cyngor

d.1 Mae'r safle wedi'i leoli yn ardal Is-Farchnad yr Wyddgrug a Bwcle lle mae polisi HN3 yn gofyn am 40% o dai fforddiadwy, sef 98 uned yn seiliedig ar godi 246 uned ar y safle. Mae hyn ar sail canfyddiadau Astudiaeth Hyfywedd Gwasanaethau'r Prisiwr Dosbarth [LDP-EBD-HP6.1](#) a [LDP-EBD-HP6.2](#) Ceir esboniad pellach ym Mhapur Cefndir 7 Tai Fforddiadwy [LDP-EBD-BP7](#)

d.2 Mae'r cais cynllunio a gyflwynwyd yn darparu ar gyfer 30% o dai fforddiadwy, sy'n gyfwerth â 72 uned, ac mae'n crybwyll y bydd angen i'r polisi tai fforddiadwy (HN3) gael ei adolygu yng nghyd-destun hyfywedd mewn Archwiliad.

Cwestiwn e)

A yw'r mecanweithiau darparu ar gyfer pob safle wedi'u nodi'n glir? A yw'r amserlen ar gyfer pob safle wedi'i nodi'n glir?

Ymateb y Cyngor

e.1 Mae taflywbr y safle ym Mhapur Cefndir 10A ([FCC002](#)) yn dangos y bydd y 40 uned cyntaf wedi'u cwblhau erbyn 2022/23, ac yna y bydd 40 annedd yn cael eu cwblhau bob blwyddyn dros y tair blynedd wedyn, ac y bydd 43 uned y flwyddyn yn cael eu cwblhau yn y ddwy flynedd sy'n weddill. O ystyried y cais cynllunio presennol, a'r ffaith fod yma ddatblygwr y mae ganddo brofiad o gyflawni cynlluniau yn y Sir, ystyrir bod hyn yn realistig ac yn gyflawnadwy.

## Polisi HN1.7 Ffordd Treffynnon / Green Lane, Ewlo

Cwestiwn a)

A ydyw'n glir pam mae'r safleoedd wedi'u dewis ar draul safleoedd ymgeisiol eraill a safleoedd amgen?

Ymateb y Cyngor

a.1 Mae'r safle wedi'i leoli ar ymyl Canolfan Gwasanaeth Leol Haen 2 ac mae'r ddau safle ymgeisiol cydrannol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gynnig estyniad rhesymegol sydd wedi'i ddiffinio'n dda yn ffisegol i'r anheddiad. Mae'n ffinio â datblygiad hirgul ar hyd Green Lane, yn ffinio â datblygiad stad sy'n bodoli eisoes i'r dwyrain, ac â Ffordd Treffynnon, ac mae'r ffin orllewinol yn dilyn perth sy'n bodoli eisoes. Mae'r safle'n agos at ystod o gyfleusterau a gwasanaethau yn Ewlo ac aneddiadau cyfagos, trafniadaeth gyhoeddus, ac y mae mewn lleoliad cynaliadwy. Y mae hefyd yn gorwedd o fewn Ardal Twf Glannau Dyfrdwy a ddiffiniwyd gan Gynllun Gofodol Cymru a Chymru'r Dyfodol – <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymrur-dyfodol-y-cynllun-enedlaethol-2040.pdf>. Ewlo yw un o'r aneddiadau mwyaf yn Haen 2, ac y mae yno ystod o gyfleusterau i gefnogi twf cynaliadwy, yn cynnwys cyflogaeth ym Mharc Dewi Sant, a hygyrchedd da i Lannau Dyfrdwy gerllaw.

a.2 Byddai dewis mwyafrif y safleoedd eraill yn Ewlo yn golygu colli rhwystrau glas. Fodd bynnag, nid yw rhyddhau'r safle oddi wrth y rhwystr glas yn y lleoliad hwn yn tansilio swyddogaeth y rhwystr glas yn nhermau atal cyduniad Ewlo a Neuadd Llaneurgain, fel yr eglurwyd yn yr Adolygiad Rhwystrau Glas [LDP-EBD-BP1](#) gan fod hyn yn cael ei gyflawni gan ddwy nodwedd ffisegol benodol sydd wedi'u dynodi'n safleoedd bywyd gwyllt – New Inn Brook a Choedwig Fferm Brook Park sydd i'r gorllewin o'r dyraniad ac yn cynnwys hyd a lled y datblygiad. Oherwydd ei gynaliadwyedd, diffyg cyfyngiadau, a pherchnogion / datblygwr parod, mae'r Cyngor yn bendant y dylid ffafrio datblygu'r safle hwn yn gyntaf, cyn gwneud unrhyw ddyraniadau dianghenraid eraill yng nghyswllt tir glas neu rwystrau glas.

Cwestiwn b)

A yw'r nifer o unedau a nodwyd yn realistig ac yn gyflawnadwy?

Ymateb y Cyngor

b.1 Mae'r nifer o unedau (298) yn seiliedig ar ddwysedd safle o 30 uned i bob hectar, ac ystyrir bod hynny'n realistig ac yn gyflawnadwy, fel y nodwyd yn y Datganiad Tir Cyffredin [Datganiad Tir Cyffredin](#).

Cwestiwn c)

Beth yw'r amrywiol gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safleoedd? Yng ngoleuni'r cyfyngiadau, a materion eraill, ymhle yr amlinellwyd beth yw'r gofynion ar gyfer pob safle? A oes eglurder a sicrwydd digonol?

Ymateb y Cyngor

c.1 Nid ystyrir bod unrhyw gyfyngiadau hollbwysig ar ddatblygu'r safle hwn. Mae set gynhwysfawr o adroddiadau cefndirol a thechnegol sy'n cyd-fynd â'r dyraniad hwn wedi'u cyflwyno gan asiant y safle, ac nid oes yr un o'r rhain wedi adnabod cyfyngiadau anorchfygol ar gwblhau'r gwaith ar y safle. Nid yw'r darparwyr gwasanaethau statudol perthnasol na'r ymgylgoreion wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad.

c.2 Bydd datblygu'r safle'n darparu seilwaith gwell a fydd yn cynnwys cyffordd well ar gyffordd Ffordd Treffynnon / Ffordd yr Wyddgrug gan ddefnyddio tir priffyrdd, a chyffordd well ar gyffordd Green Lane a Ffordd yr Wyddgrug gan ddefnyddio tir sy'n eiddo i un o berchnogion y safle. Bydd y gwelliannau hyn nid yn unig yn hwyluso datblygu'r safle, ond hefyd yn lliniaru pryderon sydd wedi bodoli ers peth amser ynghylch traffig, yn enwedig yn achos cyffordd Ffordd Treffynnon.

c.3 Mae fframwaith polisiâu'r Cynllun yn nodi'r gofynion polisi allweddol ac mae polisi HN1.7 yn nodi crynodeb o'r canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r safle. Cefnogwyd y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd gan Bapur Cefndir 3 Cynllun Seilwaith [LDP-EBD-BP3](#) a nodai nifer o ofynion seilwaith mewn perthynas â'r safle. Nid ystyrir bod unrhyw un o'r gofynion hyn yn anarferol, nac yn rhywbeth na ddylai safle o'r math hwn ei ddarparu fel rheol. Ategir hyn gan Ddatganiad Tir Cyffredin penodol i'r safle [SOCG002](#), Datganiad Tir Cyffredin Dŵr Cymru / Hafren Dyfrdwy [SOCG005](#) a'r atodiad diweddarach [SOCG005A](#) a'r Datganiad Sefyllfa Addysg [SOCG009](#).

Cwestiwn d)

O ystyried cyfyngiadau, lle mae rhai, yn ogystal â'r angen i ddarparu ar gyfer tai fforddiadwy a seilwaith, a yw'r safleoedd yn hyfyw?

Ymateb y Cyngor

d.1 Mae Papur Cefndir 07 Tai Fforddiadwy [LDP-EBD-BP7](#) yn nodi y bydd y safle, yn unol â pholisi HN3, yn darparu 40% o dai fforddiadwy, yn unol â'r Astudiaeth Hyfywedd [LDP-EBD-HP6.1](#). Mae hyn yn gyfystyr â 119 o unedau fforddiadwy yn seiliedig ar adeiladu 298 o unedau ar y safle. Mae'r Datganiad Tir Cyffredin ([SOCG002](#)) yn nodi bod maes y mae'r partïon yn anghytuno yn ei gylch, ond mae'n cynnwys ymrwymiad i gyflenwi'r swm o dai fforddiadwy sy'n codi o'r Gwrandawriad Archwilio o ran tai fforddiadwy (Mater 13). Ystyrir bod y safle'n hyfyw ac yn gyflawnadwy.

Cwestiwn e)

A yw'r mecanweithiau darparu ar gyfer pob safle wedi'u nodi'n glir? A yw'r amserlen ar gyfer pob safle wedi'i nodi'n glir?

Ymateb y Cyngor

e.1 Mae'r gwaith ar y ddau safle ymgeisiol sy'n rhan o'r dyraniad wedi bod yn cael ei wneud fel un endid gan y tîrffeddiawyr perthnasol, ac mae llawer iawn o waith cefndirol wedi'i wneud er mwyn cefnogi'r dyraniad. Mae datblygwr a ffefrir, sef Anwyl, hefyd wedi'u dewis yn ddiweddar gan y perchnogion mewn proses i ddewis datblygwyr, a rhoddwyd gwybod i'r Cyngor wedyn, fel yr eglurir yn [SOCG002](#).

